cymorth cymru

connect • strengthen • influence

# CARTREF MANIFFESTO















# CYFLWYNIAD

**Dylai pawb gael lle diogel i'w alw'n gartref, a'r cymorth cywir i'w galluogi i ffynnu yn eu cymunedau.**

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gormod o bobl yng Nghymru'n wynebu digartrefedd ac ansicrwydd ynghylch eu sefyllfa dai, gyda bron i 11,000 o bobl mewn llety dros dro, a thros 90,000 o aelwydydd ar restrau aros am dai cymdeithasol. Gall y profiad o ddigartrefedd fod yn hynod drawmatig, gan adael ei ôl ar fywydau pobl am flynyddoedd lawer i ddod, ac effeithio ar eu hiechyd, eu haddysg a'u cyflogaeth. Mae hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys costau llety dros dro sy'n codi i'r entrychion, a phwysau y gellid ei osgoi ar wasanaethau iechyd. Mae osgoi digartrefedd yn fuddiol i bawb, ac mae gan Lywodraeth nesaf Cymru rôl holl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod y profiad yn un prin, byr, na chaiff ei ailadrodd.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol gref yn y Senedd dros gyllid, polisïau a deddfwriaeth i fynd i'r afael â digartrefedd. Pleser i ni oedd gweithio gyda chynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol sy'n rhannu ein hangerdd dros sicrhau bod pobl yn cael y cartref cywir, yn y lleoliad cywir, gyda'r cymorth cywir. Mae'r cynnydd a gafwyd ar gyllid a deddfwriaeth yn ystod tymor cyfredol y Senedd hon wedi rhoi sylfaen gref i ni, ond mae yna gymaint mwy i'w wneud os ydym am wireddu'r uchelgais o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi ymgysylltu â chyd-aelodau ein sefydliad, gweithwyr rheng flaen, a phobl a chanddynt brofiad byw, i ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.

**Gobeithiwn y gallwch ymuno â ni i gefnogi'r gweithredu hwn i sicrhau bod gan bawb le diogel i'w alw'n gartref, a'r cymorth cywir i'w galluogi i ffynnu yn eu cymunedau.**

Katie Dalton
Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru

## YNGHYLCH CYMORTH CYMRU

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt.

Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn cynnwys pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod felly, pobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, trais yn y cartref neu drais rhywiol, pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu, pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, pobl sy'n cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, a llawer mwy.

# EIN BLAENORIAETHAU

YMRWYMIAD STRATEGOL TRAWSLYWODRAETHOL I ROI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD

CYNNYDD YN Y CYLLID AR GYFER GWASANAETHAU CYMORTH DIGARTREFEDD A THAI

CYNNYDD SYLWEDDOL YN Y DDARPARIAETH O DAI CYMDEITHAOL, WEDI'I ALINIO AG ANGEN

GWELL CYDNABYDDIAETH AR GYFER GWEITHWYR CYMORTH TAI A DIGARTREFEDD

TARGEDAU UCHELGEISIOL AR GYFER EHANGU TAI YN GYNTAF AR DRAWS CYMRU

DYFODOL CYNALIADWY AR GYFER GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH AR GYFER RHAI AG ANABLEDD DYSGU

YMRWYMIAD STRATEGOL I FLAENORIAETHU IECHYD CYNHWYSIANT

# YMRWYMIAD STRATEGOL TRAWSLYWODRAETHOL I ROI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD

**Yn ystod tymor cyfredol y Senedd hon, cafwyd ffocws oedd i'w groesawu ar ddigartrefedd, gyda chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau digartrefedd, a datblygu'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud os ydym am i bawb gael lle diogel i'w alw'n gartref.**

- **Blaenoriaeth trawslywodraethol:** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cydnabuwyd yn eang nad dim ond problem tai yw digartrefedd; yn hytrach, mae'n broblem gwasanaethau cyhoeddus, ac mae angen i bob rhan o'r llywodraeth chwarae eu rhan i'w atal. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud digartrefedd yn flaenoriaeth drawslywodraethol, yn cynnwys y broses o lunio'r gyllideb flynyddol, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn chwarae eu rhan mewn ataliad cyffredinol ac wedi'i dargedu.
- **Cynllun gweithredu newydd:** Trwy gyfrwng y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd cyfredol, llwyddwyd i wneud gwaith pwysig ar ddeilliannau, ail-gartrefu cyflym, y gweithlu digartrefedd, ac iechyd cynhwysol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu newydd ac iddo ffocws adnewyddol ar roi diwedd ar ddigartrefedd, gyda gweithredoedd wedi eu nodi ar gyfer pob adran berthasol o'r llywodraeth.
- **Parhau â'r pontio i ail-gartrefu brys:** Y ffordd orau o roi diwedd ar ddigartrefedd yw trwy ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, pan fo'n digwydd, rydym am iddo fod am gyfnod mor fyr â phosib. Dyna yw union nod y dull ail-gartrefu – trwy leihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro a symud pobl i mewn i gartref sefydlog ynghyd â darparu'r cymorth cywir, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Mae Cymru wedi cymryd camau positif tuag at ail-gartrefu cyflym dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn derbyn yr adnoddau a'r cymorth priodol fel bod modd parhau â'r daith hon.
- **Cefnogi Gweithredu'r Bil Digartrefedd**: Ar adeg llunio'r ddogfen hon, mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) wedi gwneud ei ffordd drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd ac yn aros am Gydsyniad Brenhinol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn torri tir newydd, a rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu'r adnoddau a'r cymorth i sicrhau bod gweithredu'r ddeddfwriaeth yn digwydd mor llyfn ag y bo modd, ac yn cael yr effaith fwyaf posib.



### Teipoleg atal digartrefedd ar 5 lefel

(Yr Athro Suzanne Fitzpatrick a'r Athro Peter Mackie)

- **Cyffredinol:** Atal y perygl o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth gyfan, yn cynnwys lleihau tlodi, tai fforddiadwy, cyflogaeth a llesiant.
- **Wedi'i dargedu:** Ymyrraeth gynnar yn ffocysu ar bobl a llefydd sydd yn y perygl mwyaf o ddigartrefedd, e.e. pobl sy'n gadael y carchar, pobl ifanc sy'n gadael gofal.
- **Argyfwng:** Angen am ymateb yn y tymor byr ar gyfer pobl sydd mewn perygl buan o fod yn ddigartref.
- **Brys:** Pobl mewn perygl diymdroi, yn cynnwys ar yr un diwrnod, o fod yn ddigartref neu heb do uwch eu pennau.
- **Ailadrodd:** Gweithio gyda phobl sydd eisoes wedi bod yn ddigartref, i atal y profiad rhag cael ei ailadrodd.

# CYNNYDD YN Y CYLLID AR GYFER GWASANAETHAU CYMORTH DIGARTREFEDD A THAI

**Mae gwasanaethau cymorth digartrefedd a thai yn holl bwysig ar gyfer atal a lleddfu digartrefedd. Maent yn darparu cyngor a chymorth hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi, yn ogystal â helpu pobl allan o ddigartrefedd drwy ddarparu Tai yn Gyntaf, lloches, a llety â chymorth.**

Mae'r gwasanaethau hyn yn newid bywydau, ac yn aml yn arbed bywydau, yn ogystal â chyflenwi buddion cost i wasanaethau cyhoeddus trwy leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu tanariannu ers blynyddoedd lawer, ac mae'r cynnydd diweddar mewn galw, a chymhlethdod yr anghenion cymorth, yn golygu bod angen mwy o gyllid yn ystod tymor nesaf y Senedd.

### Y Grant Cymorth Tai (HSG) a'r Grant Atal Digartrefedd (HPG)

Mae'r grantiau hyn yn ariannu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd yng Nghymru, yn cynnwys y gwasanaeth cyngor tai cenedlaethol, cymorth tenantiaeth, llety â chymorth, llochesi cam-drin domestig, a Tai yn Gyntaf. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o atal a lleddfu digartrefedd.

Er bod croeso cynnes wedi ei roi i gyllideb y Grant Cymorth Tai 2024/25 a 2025/26, mae pwysau chwyddiant yn golygu nad yw'r lefelau ariannu cyfredol yn uwch nag oeddent yn 2012. Mae hyn yn creu amgylchedd hynod heriol i ddarparwyr gwasanaethau; dangosodd arolwg diweddar a wnaed gan Cymorth Cymru fod 66% o'r darparwyr cymorth digartrefedd a thai cyfredol yn rhedeg gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu ar golled, gyda 60% yn dibynnu ar eu cronfeydd wrth-gefn i ychwanegu at gyllid annigonol yr awdurdodau lleol. Adroddodd 86% o'r darparwyr fod cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 97% yn adrodd bod cynnydd yng nghymhlethdod anghenion cymorth pobl.

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod y gwasanaethau hyn y derbyn y cyllid mae arnynt ei angen i gyflawni'r gwaith hanfodol yma, yn cynnwys y canlynol:

- Cynyddu cyllid y Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd i sicrhau bod yr holl wasanaethau comisiynu'n cael eu cyllido'n llawn, ac yn abl i gwrdd â'r galw lleol a chymhlethdod cynyddol yr anghenion cymorth.
- Darparu cyllid digonol i sicrhau cyfraddau staffio priodol, cyflogau teg ar gyfer gweithwyr rheng flaen, a chefnogaeth o'r radd flaenaf i staff i'w helpu i ymdopi â heriau a thrawma eu swyddi.
- Cynnal cyllid wedi'i neilltuo a darparu setliadau cyllideb aml-flwyddyn, gydag o leiaf gynnydd chwyddiant wedi'i warantu blwyddyn-ar-flwyddyn, i roi i wasanaethau a staff rheng flaen y diogeledd a'r sefydlogrwydd mae arnynt ei angen.

### Effaith ariannol gwasanaethau cymorth tai

Mewn ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, darganfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yn darparu £1.40 o arbedion net i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn seiliedig ar gyllideb gyfredol y Grant Cymorth Tai o £204m, mae hyn yn gyfwerth â chyfanswm arbediad gros o £495m, gyda £229m i'r gwasanaeth iechyd, £199m i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a £79m i'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol.



# CYNNYDD SYLWEDDOL YN Y DDARPARIAETH O DAI CYMDEITHAOL, WEDI'I ALINIO AG ANGEN

**Mae cynyddu'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol yn holl bwysig i'r uchelgais o roi diwedd ar ddigartrefedd. Gyda thua 90,000 o bobl ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, a bron i 11,000 o bobl mewn llety dros dro, mae'r angen yn fwy nag erioed. Tra bod gwasanaethau'n gwneud eu gorau i ddarparu cymorth sydd o ansawdd uchel, yn drawma-wybodus ac yn berson-ganolog, mae diffyg yn nifer y tai sy'n wirioneddol fforddiadwy yn eu hatal rhag ateb y broblem sylfaenol, sef bod llawer gormod o bobl heb le diogel i'w alw'n gartref.**

Roeddem yn gryf o blaid uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflenwi 20,000 o dai cymdeithasol ychwanegol yn ystod tymor y Senedd hon, yn enwedig y newid mewn ffocws o dai 'fforddiadwy' i dai 'cymdeithasol'. Rhoesom groeso cynnes i'r buddsoddiad o £2biliwn mewn ariannu tai cymdeithasol, a chreu'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol. Fodd bynnag, mae'r degawdau o dan-fuddsoddi'n golygu bod raid i gynyddu'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol barhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru. Mae hyn yn golygu gosod targed uchelgeisiol ar gyfer tai cymdeithasol newydd, cynyddu ariannu cyfalaf, a darparu setliadau ariannol aml-flwyddyn i alluogi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gynllunio eu rhaglenni datblygu.

Mae alinio datblygu gyda'r angen am dai, yn ogystal â sicrhau bod dyraniadau tai cymdeithasol yn effeithiol wrth leihau digartrefedd, hefyd yn holl bwysig i sicrhau y gall pobl ddod o hyd i'r cartref cywir yn y lle cywir. Fel rhan o'r pontio i ail-gartrefu brys, dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i sicrhau bod polisi datblygu cyfalaf a pholisi digartrefedd yn alinio ar lefel genedlaethol, yn ogystal â chefnogi awdurdodau lleol i wneud yr un fath.

Galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Gosod targed uchelgeisiol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol.
- Darparu setliadau cyllid cyfalaf aml-flwyddyn i alluogi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gynllunio datblygiadau.
- Cefnogi aliniad datblygu tai cymdeithasol a dyraniadau â'r anghenion digartrefedd, yn cynnwys darparu tai ar gyfer llety â chymorth a Tai yn Gyntaf.
- Gweithio ar draws y llywodraeth i wella'r ddarpariaeth tai ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth i rai a chanddynt anabledd dysgu.



**Cwrdd â'r angen am dai:**

- Mae yna bron i 11,000 o bobl mewn llety dros dro yng Nghymru, gyda thua 90,000 o aelwydydd yng Nghymru ar restrau aros am dai cymdeithasol.
- Amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn astudiaeth o'r angen am dai ychwanegol (Chwefror 2026), fod angen rhwng 7,800 a 9,300 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn rhwng Gorffennaf 2025 a Mehefin 2030.
- Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd wedi argymell y dylai tai cymdeithasol gyfrif am fàs critigol sydd o leiaf 20 y cant o'r stoc tai yng Nghymru (ar hyn o bryd mae'r ffigur tua 16%).

# GWELL CYDNABYDDIAETH AR GYFER GWEITHWYR CYMORTH TAI A DIGARTREFEDD


**Mae'r gweithlu cymorth tai a digartrefedd yn hanfodol i'r gwaith o gyflawni'r uchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd. Bob dydd, maent yn mynd ymhellach o lawer nag y disgwylir iddynt ei wneud, gan ddarparu cymorth sy'n newid bywydau i bobl ledled Cymru. Fodd bynnag, am gyfnod llawer rhy faith, nid ydynt wedi derbyn y gydnabyddiaeth maent yn ei haeddu, gyda chyflogau a chymorth yn cael eu cyfyngu gan bwysau ar gyllido a chomisiynu.**

Galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu'r argymhellion a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu, y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, i sicrhau bod y gweithwyr allweddol hyn yn cael y gydnabyddiaeth, y tâl a'r gefnogaeth maent yn eu haeddu.

- **Gwella tâl:** Mewn ymchwil a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu, darganfuwyd fod y tâl ar gyfer gweithwyr cymorth rheng flaen ym maes tai a digartrefedd yn llawer is na thâl rolau tebyg mewn sectorau eraill. Yn yr adroddiad terfynol, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru osod llwybr tuag at godiad mewn cyflog dros dymor nesaf y Senedd trwy ddarparu cyllid ychwanegol, gosod allan y disgwyliadau o ran arweiniad ac amodau grant, a sicrhau bod prosesau comisiynu'n adlewyrchu disgwyliadau newydd yn berthnasol i dâl.
- **Gwella cymorth:** Mae staff cymorth tai a digartrefedd yn aml yn gweithio mewn amgylcheddau hynod heriol wrth helpu pobl i ymdopi â thrawma sylweddol a chymhleth, yn ogystal â gorfod wynebu digwyddiadau trawmatig yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud penderfyniadau polisi a chyllideb i sicrhau bod modd cynnig cymorth rheolaidd mewn ymarfer adlewyrchol, a chymorth seicolegol, ar gyfer yr holl weithwyr rheng flaen ym maes cymorth tai a digartrefedd, yn ogystal â hyfforddiant o safon uchel i'w helpu i ymdopi â heriau'r rolau hyn.
- **Gwella cydnabyddiaeth:** Mae gweithwyr cymorth digartrefedd a thai yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth anhygoel; maent yn helpu pobl i lywio'u ffordd drwy systemau a deddfwriaeth gymhleth, yn ogystal â darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl sy'n wynebu argyfyngau. Yn anffodus, nid ydynt bob amser yn cael y gydnabyddiaeth maent yn ei haeddu, ac yn rhy aml caiff eu harbenigedd ei anwybyddu gan bobl broffesiynol mewn gwasanaethau eraill. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithredu i wella'r gydnabyddiaeth a'r parch a roddir i'r gweithlu anhepgor hwn.

### Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu

Aeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar roi Diwedd ar Ddigartrefedd ati i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu i gynghori Llywodraeth Cymru ar sut i weithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd mewn perthynas â'r gweithlu. Anfonwyd yr adroddiad terfynol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2025, yn dilyn ymgysylltu'n eang â gweithwyr rheng flaen, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr. Yn yr adroddiad gwnaed cyfres o argymhellion ar gyflogau, cefnogaeth i'r staff, hyfforddiant a chymwysterau, a chomisiynu, gan osod llwybr tuag at gael gweithlu gwydn sy'n cael eu gwerthfawrogi.






# TARGEDAU UCHELGEISIOL AR GYFER EHANGU TAI YN GYNTAF AR DRAWS CYMRU

**Mae Tai yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl sydd eisoes wedi cael eu siomi gan y gwasanaethau a'r llwybrau digartrefedd traddodiadol, a hynny trwy ddarparu cartref sefydlog cyn gynted ag y bo modd, ynghyd â chymorth dwys, person-ganolog, aml-asiantaeth. Mae cyfraddau cynnal tenantiaethau ar gyfer Tai yn Gyntaf yng Nghymru wedi bod yn rhyfeddol – 91% ers 2018 – gan ddangos pa mor effeithiol yw'r model hwn.**

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i chefnogaeth i Tai yn Gyntaf, fel rhan o ddull ail-gartrefu brys. Mae partneriaethau rhwng llywodraeth leol, a darparwyr tai a chymorth, wedi gweld cynnydd yn y gwasanaethau Tai yn Gyntaf, gyda'r model yn cael ei gyflenwi yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r galw'n parhau i fod yn llawer uwch na'r ddarpariaeth sydd ar gael.


Rydym wedi gweld gwledydd eraill, megis Iwerddon, yn sefydlu Tai yn Gyntaf fel blaenoriaeth strategol, ac yn ymrwymo i dargedau uchelgeisiol ar gyfer ehangu tenantiaethau Tai yn Gyntaf. Credwn y dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud yr un fath, gan adeiladu ar y gwaith ardderchog a wnaed hyd yma. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau darpariaeth Tai yn Gyntaf ym mhob awdurdod lleol.
- Ymrwymiad i fod yn driw i'r model.
- Gosod targed uniongyrchol ar gyfer tenantiaethau Tai yn Gyntaf, a gweithio gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol i gyrraedd y nod yma.
- Ariannu darpariaeth Tai yn Gyntaf ar gyfer menywod, i ddarparu llety sefydlog a chymorth ar gyfer menywod sydd wedi wynebu trawma dwys a chael eu hymyleiddio.
- Gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus perthnasol yn ymrwymo i gydweithio i gefnogi cleientiaid Tai yn Gyntaf.



**Beth yw Tai yn Gyntaf?**

Dull yn canolbwyntio ar adferiad i roi diwedd ar ddigartrefedd yw Tai yn Gyntaf; mae'n ffocysu ar symud pobl ddigartref yn gyflym i gartref sefydlog, tra ar yr un pryd yn darparu cymorth dwys, person-ganolog, aml-asiantaeth, cyn hired ag y bo angen amdano. Bu'r model yn fwyaf llwyddiannus gyda phobl a chanddynt anghenion gofal cronig a chymhleth, lle roedd modelau cymorth traddodiadol wedi methu.




**Astudiaeth Achos: Tai yn Gyntaf yn Iwerddon**

Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd Swyddfa Genedlaethol Tai yn Gyntaf gyda phenodiad Rob Lowth fel Cyfarwyddwr Cenedlaethol. Lleolir y swyddfa hon yn yr Asiantaeth Dai, ac mae'n gyfrifol am gydlynu a gyrru ymlaen ddull cenedlaethol, traws-Lywodraethol Tai yn Gyntaf, fel y caiff ei osod yn y  Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Tai yn Gyntaf, 2022–2026. Nod y cynllun hwn yw ymestyn Tai yn Gyntaf i bob sir yn Iwerddon, ac mae'n gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer creu 1,319 o denantiaethau Tai yn Gyntaf ychwanegol dros y cyfnod 2022–2026.

# DYFODOL CYNALIADWY AR GYFER GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH AR GYFER RHAI AG ANABLEDD DYSGU

**Pan fyddwn yn sôn bod gan bawb yr hawl i le diogel i'w alw'n gartref, a'r cyfle i ffynnu yn eu cymunedau, mae hyn yr un mor bwysig yn achos pobl a chanddynt anabledd dysgu. Mae'r model byw â chymorth yn rhoi eu tenantiaeth eu hunain i bobl, ynghyd â'r cymorth person-ganolog mae arnynt ei angen i fyw bywydau annibynnol a llawn. Mae'r gwasanaethau hyn yn newid bywydau pobl a'u teuluoedd, ond rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu i sicrhau bod y gwasanaethau'n gynaliadwy.**

Tra bod cyfyngiadau ariannol wedi effeithio ar yr holl wasanaethau a gynrychiolir gennym ni, mae ein haelodau a chanddynt anabledd dysgu, ac sy'n byw â chymorth, wedi wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i ddiffyg clustnodi cyllid gofal cymdeithasol, cynnydd yn y costau Yswiriant Cenedlaethol, a'r methiant i ariannu'r ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddigonol. Mae eu statws fel darparwyr nid-er-elw yn dod â buddion ychwanegol mawr i bobl a'u cymunedau, ond mae'r sefyllfa ariannu gyfredol yn rhoi eu cynaliadwyedd mewn perygl. Galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i fod yn fwy tryloyw ac atebol ar fater y Cyflog Byw Gwirioneddol, a sicrhau bod gwasanaethau byw â chymorth nid-er-elw yn cael eu hariannu'n llawn.


Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael budd o wasanaethau byw â chymorth, mae hefyd angen mwy o ffocws ar sicrhau'r cyflenwad angenrheidiol o dai. Dylai cynllunio datblygiad gwasanaethau byw â chymorth fod yn llawer haws nag ymateb i argyfwng tai annisgwyl, gydag anableddau dysgu'n cael diagnosis adeg yr enedigaeth neu yn ystod plentyndod cynnar. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod cynllunio priodol, ariannu, a gweithio mewn partneriaeth yn golygu bod y ddarpariaeth briodol o dai, gofal a chymorth yn barod ar gyfer pobl pan fyddant yn pontio i fyw â chymorth.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:

- Cyflenwi cyllid cynaliadwy a chomisiynu teg i sicrhau bod gwasanaethau byw â chymorth nid-er-elw yn gallu parhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel.
- Gwella'r ddarpariaeth o dai ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth, fel bod gan bawb le i'w alw'n gartref yn eu cymunedau, ac osgoi lleoli pobl mewn mannau amhriodol ymhell o gartref a/neu mewn ysbytai.
- Darparu cyflog teg a chydnabyddiaeth ar gyfer gweithwyr ym maes byw â chymorth, yn cynnwys gwell tryloywder ac atebolrwydd ar fater yr ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

## Goroesi Gofal Cymdeithasol

Roedd yr adroddiad Goroesi Gofal Cymdeithasol yn amlinellu'r heriau ariannol a wynebid gan y sector gofal cymdeithasol, yn cynnwys y gwasanaethau byw â chymorth ar gyfer pobl a chanddynt anabledd dysgu. Galwai'r adroddiad am gynnydd yn y cyllid i dalu costau llawn y gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau, ac am fwy o dryloywder ac atebolrwydd dros yr ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.






# YMRWYMIAD STRATEGOL I FLAENORIAETHU IECHYD CYNHWYSIANT

**Mae'r anghydraddoldebau iechyd sy'n wynebu pobl digartref, a grwpiau eraill ar y cyrion, wedi cael eu dogfennu'n eang, gyda thebygolrwydd llawer uwch eu bod yn dioddef o gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â bod ganddynt ddisgwyliad oes is. Credwn y dylai Llywodraeth newydd Cymru wneud iechyd cynhwysiant yn flaenoriaeth strategol, gyda chefnogaeth gan arweinyddiaeth a chyllideb, a'u bod yn annog byrddau iechyd i wneud yr un fath.**

Nod y dull Iechyd Cynhwysiant yw atal ac unioni'r annhegwch sy'n wynebu grwpiau ar y cyrion, trwy ymdrechu i ddeall eu hanghenion yn well, datblygu'r gweithlu a rhoi iddynt y ddealltwriaeth a'r sgiliau priodol, a chyflenwi gwasanaethau hyblyg, person-ganolog, integredig a hygyrch. Mae yna beth gwaith rhagorol yn cael ei gyflawni ar iechyd cynhwysiant mewn gwahanol rannau o Gymru ond, fel sawl menter arall, mae hyn yn aml yn dibynnu ar unigolion llawn angerdd ac ymrwymiad, yn hytrach na'i fod yn rhan hanfodol o'r system.

### Grwpiau iechyd cynhwysiant

Mae grwpiau iechyd cynhwysiant yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol, sy'n aml yn byw gyda nifer o ffactorau risg ar gyfer iechyd gwael, a'r rheiny'n gorgyffwrdd – megis tlodi, trais, trawma, stigma a gwahaniaethu. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr, gweithwyr rhyw, a phobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain ar waith pwysig yn y maes hwn, gan ddatblygu adnoddau a rhannu ymarfer da, ac mae'r Grŵp Strategol Cenedlaethol dros Iechyd Cynhwysiant wedi archwilio'r dull hwn o weithio fel is-grŵp o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar roi Diwedd ar Ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae'n bryd i Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd roi blaenoriaeth i'r mater hwn, a rhoi iddo'r pwysigrwydd strategol mae arno ei angen. Credwn y dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

- Penodi Dirprwy Gyfarwyddwr i fod yn gyfrifol am iechyd cynhwysiant.
- Datblygu strategaeth iechyd cynhwysiant, sy'n rhoi ystyriaeth i sut i arwain a darparu adnoddau ar gyfer y dull hwn, rhoi cyfarpar i'r gweithlu, a sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn abl i gwrdd ag anghenion pobl mewn grwpiau iechyd cynhwysiant.
- Ystyried sut orau i ddarparu iechyd cynhwysiant o fewn gofal sylfaenol.
- Dweud wrth fyrddau iechyd bod angen iddynt benodi rôl arweiniol gyda chyfrifoldeb dros iechyd cynhwysiant.
- Sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu'n gyson i ystyried iechyd cynhwysiant fel rhan o'u gwaith.

### Astudiaeth Achos: Iechyd Cynhwysiant yn Iwerddon

Yn Iwerddon, mae iechyd cynhwysiant yn flaenoriaeth genedlaethol, gyda'r Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd yn sefydlu Swyddfa Genedlaethol dros Iechyd Cynhwysiant; nod y Swyddfa hon yw lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, a gwella mynediad at wasanaethau iechyd prif-ffrwd a rhai wedi eu targedu, ar gyfer grwpiau yn Iwerddon a dan-wasanaethir ac sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol. O fewn rhanbarthau'r Weithrediaeth Gwasanaeth Iechyd, mae yna rolau arweiniol wedi ymrwymo'n llwyr i gynhwysiant cymdeithasol, a chanddynt gyllideb a thîm o staff i ddarparu iechyd cynhwysiant o fewn y rhanbarth hwnnw. Ar hyn o bryd, y gyllideb ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol yng Ngogledd Dulyn yw €40 miliwn.

